

Papur ar gyfer Sesiwn Dystiolaeth y Gymraeg – y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar 2 Gorffennaf, a oedd yn fy ngwahodd i gyfarfod y Pwyllgor yn rhydd yr hydref i drafod fy nghyfrifoldebau dros y Gymraeg, gofynnwyd imi ddarparu papur ymlaen llaw mewn perthynas ag:

- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg
- yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn ystod blwyddyn gyntaf strategaeth Bwrw Mlaen
- yr wybodaeth ddiweddaraf am roi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar waith, gan gynnwys y broses o gyflwyno'r safonau
- manylion am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â materion yn ymwneud â'r Gymraeg wrth roi adolygiad Donaldson ar waith.

Isod, trafodir y materion hyn yn eu trefn.

Adroddiad Blynyddol 2014-15 Comisiynydd y Gymraeg

Rwy'n nodi cynnwys adroddiad blynyddol diweddaraf Comisiynydd Gymraeg. Roedd hon yn flwyddyn hynod bwysig i'r Comisiynydd wrth i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 gael eu pasio ar lawr y Senedd, gan olygu y gall y Comisiynydd bellach fynd ati o ddifrif i arfer ei swyddogaethau rheoleiddio a gorfodi mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol. Mae'r camau a gymerwyd ganddi wrth ddefnyddio'i phwerau statudol mewn ymateb i gwynion gan y cyhoedd yn dangos mor bwysig yw ei rôl yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rwyf hefyd yn nodi'r hyn a gyflawnwyd gan y Comisiynydd wrth hybu'r Gymraeg ymhlith busnesau a'r trydydd sector, a chadw trosolwg o feysydd hollbwysig megis y proffesiwn cyfieithu, geiriadura a safoni'r iaith.

Blwyddyn gyntaf *Bwrw Mlaen*

Am wybodaeth fanwl ynghylch yr hyn a gyflawnwyd ers cyhoeddi datganiad polisi Bwrw Mlaen ym mis Awst 2014, trowch at yr atodiad ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae'r prif gyflawniadau yn cynnwys:

Pennod 1 – Y Gymraeg a'r Economi

- Mae Busnes Cymru wedi bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer busnesau, ac wedi dechrau buddsoddi'r £400,000 a glustnodwyd ar gyfer yr economi.

- Cynhaliwyd ymchwil i ddefnydd busnesau o sianeli Cymraeg, gan gynyddu ein gweithgarwch marchnata a chyfathrebu er mwyn gwella'r ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o ddirgwyddiadau Cymraeg: Brand Busnes.
- Rydym wedi cynnal gweithdai ledled Ardal Twf Dyffryn Teifi i drafod rôl y Gymraeg mewn busnes.
- Rydym wedi trafod â nifer o sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol y gwaith o ddatblygu cynnwys a meddalwedd ddigidol.
- Lansiodd gwefan Cymraeg – Byw Dysgu Mwynhau fel siop-un-stop i hwyluso ac annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Pennod 2 – Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg

- Buddsoddwyd cyllid cyfalaf gwerth dros £2.25 miliwn i ddatblygu 10 o Ganolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg.
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cynnwys 'y Gymraeg sy'n ffynnu' ymhlith y saith nod llesiant cenedlaethol.
- Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cymeradwyo Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg diwygiedig pob awdurdod lleol.
- Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau adroddiad blynyddol ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod 2014-15 ar 17 Gorffennaf.
- Derbyniodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 gydsyniad brenhinol ar 6 Gorffennaf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried effaith cynlluniau datblygu lleol ar y defnydd o'r Gymraeg.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i brif-ffrydio'r Gymraeg, gan sicrhau ei bod yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu ac adolygu polisïau, er mwyn paratoi at weithredu'r safonau.
- Rydym wedi rhoi cyngor ac arweiniad i helpu awdurdodau lleol i hybu'r Gymraeg e.e. helpu Cyngor Sir Powys gyda'r broses i sefydlu gweithgor ar y Gymraeg.

Pennod 3 – Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

- Cyhoeddwyd buddsoddiad ychwanegol gwerth £1.2 miliwn dros ddwy flynedd. Roedd hyn yn cynnwys £750,000 i ddatblygu gwaith y Mentrau Iaith, ac er mwyn cryfhau eu strwythurau cenedlaethol a hyfforddi staff.

- Dyrannwyd cyllid ychwanegol i Mentrau Iaith Cymru i'w galluogi i gefnogi'r rhwydwaith o Fentrau Iaith.
- Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £3.61 miliwn i 34 o sefydliadau drwy gynllun grant Hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned, a bron i £300,000 pellach drwy gronfa grant Bwrw Mlaen i hybu arloesi.
- Ariannwyd ystod o sefydliadau, gan gynnwys y Mentrau Iaith, Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc, i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer **plant a phobl ifanc** yn y gymuned.
- Bu Trywydd yn treialu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ieuenctid ac yn datblygu pecyn offer.
- Yn yr Eisteddfod Genedlaethol cyhoeddwyd ein bod yn rhoi £220,000 i ymestyn y Siarter Iaith Gymraeg ar draws ysgolion y Gogledd yn ystod 2015-16.
- Aethpwyd ati yn ystod 2014-15 i weithredu prif argymhelliad adroddiad y Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion, sef sefydlu Endid Cenedlaethol i fod yn gyfrifol am ddatblygu'r maes yn strategol ar lefel genedlaethol. Ar 12 Mai 2015, cyhoeddwyd y bydd yr Endid yn cael ei sefydlu o fewn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Athro Donaldson ar y cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru, byddwn yn mynd ati, mewn ymgynghoriad â'r sector addysg, i newid y drefn o ddysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ceir mwy o fanylion am y camau nesaf isod.

Pennod 4 – Newid ymddygiad ieithyddol

- Lansiodd brand newydd **Y Llais** er mwyn atgyfnerthu'r neges bod yna gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar ein bywydau.
- Lansiodd ymgyrch newid ymddygiad **Y Pethau Bychain**, sy'n canolbwyntio ar gyflwyno'r Gymraeg fel cyfres o bethau hawdd eu cyflawni.
- Lansiodd gwefan newydd **Cymraeg – Byw Dysgu Mwynhau** ym mis Mawrth 2015.

Mesur y Gymraeg

I baratoi ar gyfer gweithredu'r drefn safonau newydd, mae'r gwaith o sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg wedi'i gwblhau. Mae Keith Bush CF wedi cael ei

benodi'n Lywydd, a 4 arall wedi'u penodi fel aelodau'r Tribiwyllys: Nicola Jones (aelod cyfreithiol); Isata Kanneh (aelod lleyg); Sara Peacock (aelod lleyg); and Sara Williams (aelod lleyg).

Mae'r Mesur hefyd yn gwneud darpariaethau i ddarparu Panel Cyngori i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae tri aelod wedi cael eu penodi i'r panel i wasanaethau am gyfnod o dair blynedd o 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2018. Y tri aelod newydd yw Nick Speed, Heledd Iago and Meinir Davies.

Safonau'r Gymraeg

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am baratoi Rheoliadau i wneud safonau'r Gymraeg yn benodol gymwys i sefydliadau. Mae safonau'n cael eu paratoi i:

- wella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan sefydliadau
- annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn fwy
- ei gwneud yn glir i sefydliadau'r hyn y mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg
- sicrhau cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a roddir ar gyrff sydd yn yr un sectorau a'r un ardaloedd daearyddol.

Yn unol â Mesur y Gymraeg, mae safonau yn perthyn i'r categorïau canlynol:

- **Safonau cyflenwi gwasanaethau** - bydd y rhain yn cael eu gosod mewn perthynas â hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.
- **Safonau llunio polisi** - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ystyried effaith (p'un ai yn effaith positif neu'n effaith andwyol) eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- **Safonau gweithredu** - bydd y rhain yn delio â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliadau.
- **Safonau hybu** - bydd y rhain yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau i fabwysiadu strategaeth yn amlinellu sut maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach.
- **Safonau cadw cofnodion** - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir gan sefydliad. Bydd y cofnodion hyn yn helpu'r Comisiynydd i sicrhau bod sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau.

Cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015 a ddaethpwyd i rym ar 31 Mawrth 2015. Mae'r Rheoliadau yn galluogi'r Comisiynydd i osod safonau ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Mae'r Comisiynydd wedi dechrau'r broses o osod safonau at y sefydliadau hyn. Mae hi wedi ymgynghori gyda'r cyrff ar hysbysiadau cydymffurfio drafft, ac wedi nodi bwriad i osod hysbysiadau cydymffurfio terfynol yn Medi 2015. Bydd rhaid i sefydliadau gydymffurfio â safonau o ddyddiad wedi pennu gan y Comisiynydd yn yr hysbysiad cydymffurfio, ond bydd rhaid i o leiaf 6 mis fynd heibio rhwng derbyn yr hysbysiad a gorfod cydymffurfio.

Fe orffennodd y Comisiynydd ei hail ymchwiliad ar 6 Chwefror 2015, a cyflwynwyd casgliadau i Weinidogion Cymru yn Mai 2015. Roedd yr ail ymchwiliad yn cynnwys 119 sefydliad o amryw o sectorau. Roedd yn cynnwys sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau yn y meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau brys, atyniadau ymwelwyr, Tribiwnlysoedd Cymru, a darlledu. Yn unol â Mesur y Gymraeg, rwyf yn y broses o rhoi sylw dyladwy i gasgliadau'r Comisiynydd. Byddaf yn cyhoeddi ymateb llawn i'w ymchwiliad yn yr hydref o 2015. Bydd hwn yn cynnwys amserlen ar gyfer paratoi Rheoliadau i wneud safonau yn benodol gymwys i sefydliadu yn yr ail ymchwiliad.

Fe ddaeth trydydd ymchwiliad y Comisiynydd, i 64 o gyrff, i ben ar 18 Awst 2015. Roedd y sefydliadau yn cynnwys rhai Adrannau Llywodraethol, darparwyr tai cymdeithasol, cwmnïau dwr, a'r Post Brenhinol a'r Swyddfa Bost. Rwy'n disgwyl derbyn casgliadau'r Comisiynydd mewn perthynas a'r ymchwiliad hwn yn mis Hydref 2015.

Rhoi Adolygiad Donaldson ar waith.

Ym mis Mawrth 2014, penododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr Athro Graham Donaldson i ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o drefniadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Cyhoeddwyd adroddiad yr Athro Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus' gan Lywodraeth Cymru ar 25 Chwefror 2015. Ar 30 Mehefin derbyniodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr holl argymhellion yn yr adroddiad.

Nododd yr Athro Donaldson 4 diben y cwricwlwm a'r nodweddion allweddol sy'n gosod y sylfeini ar gyfer ein plant a phobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Y Gymraeg

Wrth gynnal ei adolygiad annibynnol, ystyriodd yr Athro Donaldson adroddiadau nifer o adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd hyn yn cynnwys yr Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, dan gadeiryddiaeth yr Athro Sioned Davies. Mae

casgliadau'r Athro Donaldson yn cael eu hadlewyrchu yn ei adroddiad, ac yn cynnwys argymhellion ar y Gymraeg yn y cwricwlwm. Mae'r Athro Donaldson yn awgrymu bod angen gwella perthnasedd ac ansawdd addysgu a dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'n cynnig mwy o ffocws ar allu plant a phobl ifanc i gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd, gyda phwyslais ar ddefnydd cynyddol yn y gweithle.

Mae un o'r chwe egwyddor yn ein cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru, 'Cymwys am Oes', yn amlinellu ein hymrwymiad i adeiladu "Hyder a balchder yng Nghymru fel cenedl ddwyieithog sydd â'r cryfder a'r hunanhyder i feithrin y ddwy iaith." Polisi Llywodraeth Cymru yw bod yr iaith Gymraeg yn cael lle pendant yn y cwricwlwm ym mhob ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc 3-16 oed.

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y sefyllfa hon. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael ag ystod o heriau sylweddol wrth addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Rwy'n croesawu argymhellion yr Athro Donaldson yn hyn o beth.

Ysgolion Arloesi

Fel rhan o bartneriaeth Cymru-gyfan, bydd ysgolion ac ymarferwyr, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill, yn arwain dyluniad a datblygiad ein cwricwlwm newydd. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gwahodd ein consortia addysg rhanbarthol i weithio gyda'u ysgolion ar draws Cymru - cynradd, uwchradd, arbennig - i wneud cais i fod yn Ysgolion Arloesi. Ysgolion Arloesi fydd yn helpu i lunio manylion y cwricwlwm newydd cynhwysol.

Mae Ysgolion Arloesi yn cynrychioli cyfle allweddol bwysig a chyffrous iawn i fod yn rhan o dîm a fydd yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau dysgu gwell a safonau uwch ar gyfer ein holl blant a phobl ifanc ac yn y pen draw ar gyfer Cymru ei hun.

Amserlen

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wrthi'n datblygu cynllun a fydd yn amlinellu sut bydd argymhellion yr Athro Donaldson yn cael eu gweithredu. Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

ATODIAD: Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn ystod blwyddyn gyntaf Bwrw Mlaen

Pennod 1 – Y Gymraeg a'r Economi

Mae **Busnes Cymru** wedi bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer busnesau, gan ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth drwy amryw sianeli. Ymhellach, dechreuwyd buddsoddi'r £400,000 a glustnodwyd ar gyfer yr economi yn *Bwrw Mlaen* ar brosiectau penodol sydd wedi arwain at ragor o weithgarwch Cymraeg drwy ein sianeli busnes. Rydym hefyd wedi manteisio ar ddigwyddiadau rhyngwladol fel uwchgynhadledd NATO a Chynhadledd Fuddsoddi DU Cymru, ac ar Faes Awyr Caerdydd fel porth i weddill Cymru, er mwyn marchnata'r Gymraeg fel iaith fusnes.

Rydym wedi cynnal **ymchwil cychwynnol** i ganfod pam nad yw busnesau'n gwneud defnydd llawn o sianeli Cymraeg, a sut i annog rhagor o ddefnydd ohonynt, ac wedi cynyddu ein gweithgarwch **marchnata a chyfathrebu** er mwyn gwella'r ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg ac arferion da. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchoedd yn Golwg, y Papurau Bro, gorsafoedd radio cenedlaethol, a bwletinau tywydd S4C, ac wedi arwain at ragor o ddefnydd o wasanaethau Cymraeg Busnes Cymru.

Rydym hefyd wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau **Cymraeg: Brand Busnes** yng Nghaerdydd, Caernarfon, Aberystwyth a Llanelli, a bu swyddogion isadran y Gymraeg yn cydweithio'n agos â swyddogion Adran yr Economi a Thwristiaeth er mwyn prif-ffrydio'r Gymraeg ar draws gwasanaethau'r Llywodraeth.

Bu swyddogion hefyd yn parhau i gynnal trosolwg o ddatblygiadau'r Ynys Ynni ar Ynys Môn. Yn ogystal â gweithio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru a chyda Cyngorau Sir Ynys Môn a Gwynedd, rydym yn aelodau o fyrddau gwaith Horizon, sy'n ystyried effaith ieithyddol y datblygiad, yn ogystal â'r grŵp Sgiliau a Chyflogaeth.

Ac mewn perthynas ag **Ardal Twf Dyffryn Teifi**, yn dilyn adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen, dros yr haf a'r hydref rydym yn cynnal gweithdai ledled yr ardal honno i drafod rôl y Gymraeg mewn Busnes a sut all gryfhau'r brand busnes. Bydd canlyniadau'r gweithdai hyn yn llywio prosiectau'r dyfodol yn y maes, gan gynnwys nodi bylchau yn y ddarpariaeth a'r ymchwil presennol.

Rydym wedi cymryd camau i hyrwyddo **gwerth y Gymraeg fel sgil yn y gweithle**, yn dilyn ymlaen o'r adroddiad *Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector* a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014. Mae'r ymchwil hwn wedi darparu tystiolaeth i ganiatáu i raglenni a phrosiectau datblygu sgiliau dargedu'r sectorau a'r ardaloedd lle mae'r galw mwyaf am sgiliau Cymraeg.

Mae'r Partneriaid Sgiliau Rhanbarthol wedi defnyddio canlyniadau'r arolwg yn eu strategaethau sgiliau lleol, a bydd hyn yn datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn nesaf, gan lywio rhaglenni a pholisïau sgiliau at y dyfodol.

O ran **cynnwys a meddalwedd ddigidol**, rydym wedi trafod â nifer o sefydliadau i hwyluso'r gwaith o ddatblygu adnoddau newydd. Mae'r rhain yn amrywio o brifysgolion i unigolion a chwmnïau masnachol amlwg yn y maes e.e. Twitter a Nuance.

Eleni lansiodd ein Gwasanaeth Cyfieithu wefan newydd **BydTermCymru**, sy'n cynnwys lawrlwythiadau o gofau cyfieithu arbenigol, ar drwydded agored ar lwyfan pan-Ewropeaidd Meta-Net, a chomisiynwyd rhyngwynebaw Cymraeg i apiau Apple rhyngwladol megis PlaneFinder, Steppy II ac Alto's Adventure.

Ac yng nghylch grantiau 2014-15 y Gronfa Technoleg a Chyfyngau Digidol Cymraeg, rhoddwyd cyllid i ddeg o brosiectau newydd, gan gynnwys Prifysgol De Cymru i drosi adnoddau technoleg iaith GATE i'r Gymraeg, ac Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor i ddatblygu eu gwaith ym maes technolegau lleferydd. Ac yn unol â'n hymrwymiad i'w gwneud yn haws i grwpiau cymunedol a chyrrff y trydydd sector fanteisio ar adnoddau technegol, rhoddwyd arian grant i brosiect O Glust i Glust Menter Môn er mwyn hwyluso cyfarfodydd Cymraeg yn y gymuned.

Ar lefel ymarferol, er mwyn hwyluso ac annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, rydym wedi creu adran newydd ar wefan **Cymraeg – Byw Dysgu Mwynhau** i gasglu ynghyd ein holl fideos YouTube sy'n dangos sut i newid rhyngwynebaw meddalwedd poblogaidd i'r Gymraeg. Mae adran arall ar y wefan sy'n dethol apiau symudol Cymraeg fesul categori.

Rydym hefyd wedi comisiynu **adnoddau digidol ym maes addysg** (yn 2014-15 roedd tua 65 y cant ohonynt yn ddigidol neu'n cynnwys elfen ddigidol) ac yn parhau i weithio gyda'r BBC ac S4C er mwyn cynnig cynnwys digidol ar wefan dysgu digidol Hwb.

Pennod 2 – Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg

Fe wnaethom wario cyllid **Cronfa Buddsoddi Cyfalaf** gwerth dros £2.25 miliwn i ddatblygu 10 o **Ganolfannau a Gofodau Dysgu** Cymraeg, gyda'r nod o greu canolfannau deinamig yn ein trefi a'n cymunedau, ac er mwyn rhoi sylfaen i brosiectau cymunedol fod yn hunangynhaliol. Byddant yn hybu'r defnydd o, a throchi yn, y Gymraeg, ac yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol, colegau a phrifysgolion weithio gyda phartneriaid yn y gymuned i alluogi pobl i ddysgu neu ymarfer eu Cymraeg.

Yn ogystal â Safonau'r Gymraeg (gweler uchod), mae *Bwrw Mlaen* yn gosod yr her o wella cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg ac o godi safle'r Gymraeg ar agendâu polisi o fewn y Llywodraeth a thu hwnt. Bydd y Safonau Polisi a'r Safonau Hybu yn chwarae rhan bwysig yn hyn o beth, ac mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** yn cynnwys 'y Gymraeg sy'n

ffynnu' ymhlith y saith nod llesiant cenedlaethol fydd yn sail i flaengynllunio gan gyrff cyhoeddus ar gyfer y dyfodol. Mae swyddogion Uned y Gymraeg wedi bwydo i mewn i'r broses o lunio canllawiau i atgoffa sefydliadau sut mae'r dyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg yn cyfrannu at eu dyletswyddau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Ym maes **iechyd**, ym mis Gorffennaf cynhaliwyd *Gwireddu'r Geiriau* – Cynhadledd a Gwobrau'r Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Nod y gynhadledd a'r seremoni wobrwyo flynyddol hon yw rhannu arfer da er mwyn cryfhau gwasanaethau Cymraeg ac mae hefyd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer gwireddu amcanion *Mwy na geiriau*.

Gan fod problemau iechyd meddwl (megis dementia) yn gallu effeithio ar allu cleifion i ddefnyddio eu hail iaith (yn enwedig wrth i'r salwch waethygu), mae cael mesur safonol yn y Gymraeg yn hollbwysig i ofal cleifion Cymraeg eu hiaith. Yn ddiweddar, cyfieithwyd pecyn offer asesu gwybyddol y Gymdeithas Alzheimer gan Brifysgol Bangor gan ddilysu tri o'r mesurau asesu gwybyddol yn ieithyddol. Hwn yw'r pecyn cyntaf erioed i ddarparu cyfres o fesurau asesu gwybyddol yn Gymraeg.

Ers pasio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 mae'n ofyniad statudol i awdurdodau lleol baratoi **Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg**. Cafodd y 22 Cynllun a gyflwynwyd eu hystyried yn fanwl gan Weinidogion Cymru. Cafodd tri Chynllun eu cymeradwyo a chafodd 19 arall eu cymeradwyo gyda diwygiadau. Cymeradwywyd hefyd Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg Diwygiedig pob awdurdod lleol – 5 fel y'u cyflwynwyd ac 17 gydag addasiadau.

Cyhoeddwyd cynllun gweithredu pum mlynedd ar y cyd â'r **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** ym mis Ebrill 2010. Mae gwerthusiad tair blynedd o'r Strategaeth wrthi'n cael ei gwblhau. Cyhoeddwyd adroddiad interim ym mis Tachwedd 2014, a gobeithir cyhoeddi'r adroddiad terfynol yn ystod hydref 2015. Byddwn wedyn yn mynd ati i adolygu'r Strategaeth a'r targedau cyn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y cyfnod nesaf o weithredu.

Derbyniodd **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** gydsyniad brenhinol ar 6 Gorffennaf. Mae'r Ddeddf yn cynnwys pwerau newydd sy'n ei wneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio roi ystyriaeth i'r Gymraeg fel rhan o'u cynlluniau datblygu ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn datgan y dylid ystyried effeithiau ar ddefnydd y Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol, a chafodd y goblygiadau hyn eu ffurfioli yn y Ddeddf newydd. Mae'n angenrheidiol bellach i awdurdodau cynllunio gynnwys asesiad o effeithiau eu cynlluniau a'u polisiau cynllunio ar y Gymraeg wrth ymgymryd ag Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd hyn yn sicrhau bod pob cynllun datblygu lleol, yn ogystal â chynlluniau datblygu strategol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

newydd, yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru o annog twf yn nefnydd y Gymraeg. Mae disgwyl i awdurdodau cynllunio gynnal a diweddarau sylfaen dystiolaeth ar faterion sy'n bwysig i'r cynllun datblygu, ac mae'r ddeddf newydd yn cadarnhau bod dystiolaeth o ddefnydd o'r Gymraeg yn un o'r materion pwysig hynny.

Mae'r Ddeddf yn darparu eglurder i awdurdodau cynllunio lleol bod effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg yn gallu bod yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu – hynny yw, penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd cynllunio. Nid yw'r flaenoriaeth a roddir i'r Gymraeg wedi newid yn sgil y Ddeddf, ond fe enwir y Gymraeg yn benodol, er mwyn darparu sicrwydd a hyder i swyddogion cynllunio a chynghorwyr lleol.

Er mwyn **parhau i brif-ffrydio'r Gymraeg** ar draws pob adran, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu ac adolygu polisiâu, gan lansio fframwaith ar gyfer asesu effaith polisiâu ar y Gymraeg a hyfforddi staff ar ddefnyddio'r fframwaith. Yn ogystal â hynny, cafodd modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith ei baratoi er mwyn gwella ymwybyddiaeth staff o hanes, demograffig, deddfwriaeth a pholisiâu mewn perthynas â'r Gymraeg.

Derbyniwyd **Hysbysiad Cydymffurfio** drafft gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 22 Mehefin 2015 yn rhestrîr safonau y mae hi'n cynnig eu gosod ar Weinidogion Cymru, ynghyd â dyddiad y daw'r safonau hynny i rym, yn unol ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Darparwyd ymateb i'r ymgynghoriad byr a ddilynodd a gobeithiwn ddod i gytundeb terfynol ar gynnwys yr Hysbysiad Cydymffurfio terfynol ym mis Medi 2015.

Cynhaliwyd cyfres cynhwysfawr o sesiynau ymgysylltu gyda staff ar oblygiadau symud i system newydd o safonau ar gyfer y Gymraeg ers dechrau Ebrill 2015. Un elfen arwyddocaol o'r sesiynau yw trafod gallu'r sefydliad i weithio yn ddwyieithog, heb or-ddibyniaeth ar y Gwasanaeth Cyfieithu. Mae Strategaethau Sgiliau Dwyieithog adrannol y sefydliad yn cael eu hadolygu yn barhaus, sef dogfennau cynllunio gweithlu sydd yn ystyried yr angen am ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn perthynas â sgiliau iaith Gymraeg y sefydliad.

Ar lefel **awdurdodau lleol**, rydym wedi rhoi cyngor ac arweiniad i gynghorau i'w helpu i gymryd camau i hybu'r Gymraeg. Er enghraifft, mewn ymateb i'r dirywiad yn nifer siaradwyr Cymraeg ym Mhowys rhwng 2001 a 2011, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sefydlu Gweithgor i edrych ar sefyllfa'r iaith yn y Sir, ac i lunio argymhellion ar sut y gall y Cyngor weithredu i atal a gwrthdroi'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Bwriad y Cyngor yw Asesu ei wasanaethau yn ôl cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a chyfleoedd i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg.

Cafodd y Cyngor arweiniad gan Swyddogion o Lywodraeth Cymru ac o awdurdodau lleol eraill cyn sefydlu'r Gweithgor a chynnal y cyfarfod cyntaf ym

Mehefin eleni, a chafwyd cyflwyniad swyddogion Is-adran y Gymraeg a'r Adran Addysg yn y cyfarfod cyntaf hwnnw.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol i'w gwneud yn ymwybodol o'r camau rydym yn disgwyl iddynt eu cymryd mewn perthynas â'r Gymraeg wrth i'r broses o ad-drefnu Cynghorau Lleol fynd yn ei blaen

Pennod 3 – Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Er mwyn dechrau adeiladu ar argymhellion adolygiad Prifysgol Caerdydd o waith y Mentrau, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe, cyhoeddwyd buddsoddiad ychwanegol gwerth £1.2 miliwn dros ddwy flynedd, ac fel rhan o'r gwariant ychwanegol hwn neilltuwyd £750,000 i ddatblygu **gwaith y Mentrau Iaith**, gan gynnwys cryfhau strwythurau cenedlaethol y Mentrau a darparu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i staff partneriaid grant Llywodraeth Cymru, ynghyd ag adnoddau i farchnata'r Gymraeg yn gymunedol.

Dyrannwyd cyllid ychwanegol hefyd i Mentrau Iaith Cymru i'w galluogi i gefnogi'r rhwydwaith o Fentrau Iaith. Dwy hyn bu modd i Mentrau Iaith Cymru benodi dau swyddog newydd er mwyn cynorthwyo'r Llywodraeth i greu ymgyrchoedd i farchnata'r defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol, a datblygu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer staff y mentrau iaith.

O ran **gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned**, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £3.61 miliwn i 34 o sefydliadau drwy gynllun grant Hyrwyddo'r Gymraeg. A dyrannwyd bron i £300,000 pellach drwy gronfa grant Bwrw Mlaen i hybu arloesi yn yr ardaloedd lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg, yn ogystal ag ardaloedd eraill sydd o bwys strategol – yn ystod 2014-15 cefnogwyd 16 o brosiectau amrywiol gyda'r cyllid hwn.

O safbwynt gweithredu ar sail argymhellion adroddiad yr **Eisteddfod Genedlaethol**, yng ngŵyl Maldwyn a'r Gororau a gynhaliwyd ym Meifod eleni, gwelwyd datblygu ymhellach ar nifer o elfennau newydd a brofodd yn boblogaidd iawn i fynychwyr yr Ŵyl, gan gynnwys ardaloedd 'pentref' penodol ar gyfer bwyd ac adloniant, gwerin, celf a drama. Chwifiai baneri mawr lliwgar i ddynodi'r gwahanol ardaloedd ar y maes, gyda delwedd arbennig Caffi Maes B ar ffurf tipi ar gyfer pobl ifanc yn profi'n leoliad poblogaidd ar gyfer ymlacio a gwranddo ar gerddoriaeth fyw. Nifer y mynychwyr eleni oedd 150,776.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, ymhlith datblygiadau eraill, gwelwyd sefydlu gwefan newydd gan yr Eisteddfod, a thrwy grant Bwrw Mlaen, cafodd criw o bobl ifanc ardal yr Eisteddfod ddysgu am berfformio mewn band, trefnu gigs a ffilmio fideos. Ar gyfer 2015/16, mae cydlynnydd rhan-amser yn cael ei gyflogi gan yr Eisteddfod i hybu'r sîn gerddoriaeth ar gyfer pobl ifanc.

Ein prif gynlluniau ym maes **teuluoedd** yw Twf a Tyfu gyda'r Gymraeg. Twf yw'r cynllun mwyaf, ac mae ar waith ledled gogledd a de-orllewin Cymru er mwyn annog rhieni neu ofalwyr sy'n siarad Cymraeg i drosglwyddo'r iaith i'w plant. Tyfu gyda'r Gymraeg yw ein cynllun cyfredol i gefnogi rhieni neu ofalwyr

i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda nhw.

Rydym wedi parhau i ariannu ystod o sefydliadau i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer **plant a phobl ifanc** yn y gymuned. Roedd hyn yn cynnwys dyrannu grantiau i sefydliadau megis y Mentrau Iaith, Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc. Dyrannwyd cytundebau hefyd i Cerdd Gymunedol Cymru, Llenyddiaeth Cymru, ac i Trywydd ar gyfer y Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (cymerodd 24 ysgol ran yn y prosiect PCAI yn ystod 2014-15).

I gyd-fynd â'r agwedd gymunedol hon, bu Trywydd yn datblygu ac yn treialu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ieuenctid, ac yn datblygu pecyn offer a fydd yn arfogi swyddogion i ddylanwadu a chefnogi defnydd iaith pobl ifanc.

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni cyhoeddais ein bod yn rhoi £220,000 i ymestyn **Siarter Iaith Gymraeg** ar draws y Gogledd yn ystod 2015-16.

Cafodd y Siarter, a dreialwyd yng Ngwynedd, ei datblygu mewn ysgolion cynradd fel fframwaith i annog y plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. O dan y Siarter, mae pob ysgol unigol yn asesu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith ei phlant, cyn datblygu cynllun gweithredu sy'n gweithio tuag at lefelau efydd, arian neu aur. Mae'r Siarter yn annog pawb - y disgyblion, y rhieni, y llywodraethwyr, a'r gymuned yn ehangach - i chwarae eu rhan.

Gan adeiladu ar lwyddiant y cynllun peilot yng Ngwynedd, sydd wedi gweld cynnydd yn y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc, bydd y Siarter nawr yn cael ei hymestyn i gynnwys Conwy, Dinbych, y Fflint a Wrecsam yn ystod y flwyddyn nesaf. Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am wneud hyn, gyda'r nod o ddatblygu'r Siarter yn rhaglen genedlaethol yn y pen draw.

Ar 12 Mai eleni, ac yn dilyn proses grant gystadleuol, cyhoeddwyd y bu Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn llwyddiannus yn eu cais i fod yn **Endid Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion**. Bydd yr Endid yn gyfrifol am arwain y maes yn strategol i'r dyfodol ar lefel genedlaethol, ac am wireddu argymhellion eraill y Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion. Mae gwaith ar weithredu argymhellion eraill yr adolygiad o faes Cymraeg i Oedolion hefyd wedi cynnwys:

- datblygu trefniadau cyllido newydd ar gyfer y maes
- cychwyn ar y gwaith o ddatblygu cwricwlwm newydd a fydd yn sail i'r cyrsiau yn y dyfodol
- datblygu trefniadau asesu newydd i'w peilota o fis Medi 2015
- gweithredu ymgyrch farchnata genedlaethol trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Pennod 4 – Newid ymddygiad ieithyddol

Mae codi ymwybyddiaeth ac annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau yn gwbl allweddol, ac rydym wedi datblygu cyfres o ymgyrchoedd marchnata a brandiau gyda'r nod o gyfrannu at newid ymddygiad ieithyddol.

Ym mis Awst 2014, lansiodd brand newydd **Y Llais** er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru a'n partneriaid i hyrwyddo gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau Cymraeg, ac atgyfnerthu'r neges bod yna gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar ein bywydau: trwy fyw, dysgu a mwynhau.

Lansiodd ymgyrch newid ymddygiad **Y Pethau Bychain** yn Eisteddfod Genedlaethol 2014, sy'n canolbwyntio ar gyflwyno'r Gymraeg fel cyfres o bethau hawdd eu cyflawni, a defnyddio awgrymiadau unigolion i ddangos i'w cyfoedion mai rhywbeth syml yw ymgorffori mwy o'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd.

Cynhaliwyd ymgyrchoedd yn targedu cynulleidfaoedd gwahanol, e.e. cystadleuaeth y Pethau Bychain i bobl ifanc 14-25 oed i gyd-fynd ag wythnos sgiliau (hydref 2014), ac ymgyrch C'mon Cymru i gyd-fynd â phencampwriaeth rygbi'r 6 Gwlad a dydd Gŵyl Dewi.

Lansiodd gwefan newydd **Cymraeg – Byw Dysgu Mwynhau** ym mis Mawrth 2015 (is-wefan cyntaf Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r parh newydd **.cymru**) sy'n borthol ar gyfer pob math o wybodaeth am y Gymraeg. Yn ogystal â manteisio ar y digwyddiadau **Cymraeg: brand busnes** i hyrwyddo'r defnydd o **.cymru** ymysg busnesau, roedd y parh newydd hefyd yn rhan o gynllun cyfryngau cymdeithasol cyfrifon Cymraeg ac @iaithfyw.

Rydym hefyd wedi bod yn cynnal gwaith ymchwil er mwyn gwella ein technegau, er enghraifft, i ystyried ar ba bwynt mae unigolyn yn cael ei ddylanwadu i newid ei ymddygiad o ran y Gymraeg, yn ogystal â'r agweddau cyffredin yr hoffem ddylanwadu arnynt. A chynhaliwyd cyfres o weithdai a chyfarfodydd gydag amrywiaeth o bartneriaid i ystyried sut y gellir newid ein hymddygiad ni fel llywodraeth, yn y man cyntaf, wrth gyflwyno gwybodaeth a rhesymau dros ddefnyddio'r Gymraeg i unigolyn.